# Strategaeth Anableddau Dysgu Gogledd Cymru 2026-2036

## Ein cynllun i Gefnogi Pobl sydd ag anableddau dysgu ledled Gogledd Cymru

Crynodeb

Gogledd Cymru **Gyda'n Gilydd**
North Wales **Together**

*Gwasanaethau ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu*
*Seamless services for people with Learning Disabilities*

# Ynglŷn â'r cynllun hwn

**Gyda'r gefnogaeth gywir, gall llawer o bobl ag anabledd dysgu fyw bywydau llawn, annibynnol a hapus.**

Diffinnir anabledd dysgu fel:

- Mae'n dechrau yn ystod plentyndod. Gallu deallusol is (fel arfer IQ islaw 70).
- Nam sylweddol ar allu gymdeithasol neu addasol.

Mae anabledd dysgu yn wahanol i anhawster dysgu fel dyslecsia neu ADHD. Gall rhai pobl gael y ddau.

# Ein gweledigaeth

**Bydd pobl ag anableddau dysgu yn cael eu cefnogi i gyrraedd eu potensial a gwella eu lles.**

**Maent yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi i fyw bywydau hapus, diogel a chyflawn o fewn eu cymuned yng Ngogledd Cymru.**

**13,000**

**2%**

Mae tua **13,000** o bobl ag anableddau dysgu yng Ngogledd Cymru, sef **2%** o'r boblogaeth.

Mae **3094** ohonynt, seftua chwarter (**24%**), yn adnabyddus i'r gwasanaethau cymdeithasol.

**24%**

**3,094**

**8%**

**5 years**

Rhwng **2015 a 2020**, cododd nifer y bobl ag anableddau dysgu yng Ngogledd Cymru i **8%**.

## Sut y gwnaethom ddatblygu'r cynllun hwn

Edrychom ar dystiolaeth a gwybodaeth. Defnyddiwyd:

- y canlyniadau a'r gwersi a ddysgwyd o Strategaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru: 2018-2023
- y wybodaeth o asesiadau poblogaeth a chynlluniau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Siaradom â phobl ag anableddau dysgu a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw, drwy:

- holiadur hawdd ei ddarllen
- grwpiau ffocws
- 3 gweithdy
- ymgysylltu gydag ysgolion a lleoliadau ieuenctid
- ymweliadau wyneb yn wyneb
- ymgynghoriad chwe wythnos
- Cynhwyswyd sefydliadau a grwpiau o'r gymuned Anabledd Dysgu hefyd.

**Cymerodd dros 500 o bobl ran yn y broses o ddatblygu'r Strategaeth yma.**

**Dywedasant wrthym am eu profiadau a'r hyn oedd yn bwysig iddynt.**

Cymerwyd popeth a'i rhannwyd gyda ni a'i ddefnyddio i nodi ein **15 blaenoriaeth** ar gyfer 2026 i 2036.

# Ein 15 blaenoriaeth

**1. Cyrraedd potensial** — rhoi cefnogaeth i bobl i gyrraedd eu nodau, bod mewn rheolaeth o'u bywydau eu hunain a chael yr un cyfleoedd â phawb arall.

**2. Teimlo'n ddiogel ac wedi eu cefnogi** — gael cymunedau diogel a gofalgar, lleihau stigma a rhoi gwybodaeth hawdd ei deall i bobl sy'n eu helpu i fyw bywydau annibynnol.

**3. Oes a lles** - sicrhau bod pobl yn cael y gefnogaeth gywir, ar yr amser cywir er mwyn iddynt fod yn heini ac yn iach.

**4. Atal ac ymyrraeth gynnar** - Gwasanaethau i gamu i mewn yn gynnar i gefnogi pobl cyn i broblemau waethygu

**5. Llais, dewis a rheolaeth** - cynnwys a gwrando ar bobl er mwyn iddynt gael rheolaeth dros benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

**6. Cefnogi plant a phobl ifanc** - sicrhau y gallant ddatblygu eu sgiliau a chyrraedd nodau. Rydym hefyd eisiau sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn cael cefnogaeth a chynnig seibiant.

**7. Cefnogaeth bontio** - sicrhau bod pobl yn cael cefnogaeth trwy gyfnodau gwahanol bywyd.

**8. Mynediad at Gludiant** - cael cludiant fforddiadwy ar amseroedd gwahanol o'r diwrnod, sy'n bodloni anghenion pobl ac yn hyrwyddo annibyniaeth.

**9. Hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol** - grymuso pobl i ddatblygu eu bywyd cymdeithasol, gwneud dewisiadau ffordd o fyw diogel a chael perthnasoedd iach.

**10. Gweithgareddau cymunedol a hamdden** - sicrhau bod pobl yn cael cyfleoedd i fwynhau gweithgareddau gan gynnwys ymarfer corff, dawnsio, clwb drama, crefftau, clybiau ieuenctid, digwyddiadau cerddoriaeth a mwy.

**11. Hyrwyddo cefnogaeth i bobl sydd ag anableddau dwys a lluosog** - sicrhau bod pobl yn deall cymhlethdod hyn er mwyn i bobl gael y cymorth cywir.

**12. Addysg a Chyflogaeth** - sicrhau bod gan bobl gefnogaeth i gyrraedd eu nodau mewn addysg a gwaith. Mae hyn yn cynnwys datblygu eu sgiliau er mwyn iddynt gael cyfleoedd i sicrhau eu swydd neu yrfa ddelfrydol.

**13. Cael cartref** - sicrhau bod dewis tecach o dai, gwell lleoliadau a chefnogaeth i fyw bywyd annibynnol.

**14. Gweithlu** - sicrhau bod gan bawb sy'n gweithio ar draws y gwasanaethau yr un gwerthoedd ac yn rhoi pobl yn gyntaf.

**15. Comisiynu** - sicrhau bod unrhyw wasanaethau mae Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn eu comisiynu, yn canolbwyntio ar ddull 'un cynllun gofal'.

**Diolch am ddarllen hwn**

CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU GOFAL A LLESIANT GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE
GIG CYMRU NHS WALES Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales
GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board
Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council
Cyngor Gwynedd Council
Conwy Cyngor Bwrdeistref Sirol County Borough Council
Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council
Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council
wrexham County Borough Council